# Cyfranogi mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch

## Adroddiad ar ganfyddiadau'r panel arbenigol

Mai 2022 v1





| Crynodeb o'r Ddogfen | |
|---|---|
| **Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:** | Cyflwyno canfyddiadau'r *Panel Arbenigol Cyfranogi mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch* a gynullwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Awduron:** | Dr Ciarán Humphreys (Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Yr Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach, Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br><br>Christian Heathcote-Elliott (Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Yr Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach, Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br><br>Hoffem gydnabod cyfraniadau Cadeirydd y Panel, yr Athro Ceri Phillips, a holl aelodau'r panel. |
| **Dyddiad y diweddariad diwethaf** | 12 Mai 2022 |
| **Fersiwn** | V1 |

# Tabl cynnwys

Tabl cynnwys ........ 2
Cefndir ........ 4
  Y Panel Arbenigol ........ 4
  Diben yr adroddiad hwn ........ 4
Cyd-destun ........ 5
  Pandemig COVID-19 a gwaith ........ 5
  Her driphlyg ........ 6
  Cyfnod o newid ........ 6
  Datblygu economi llesiant ........ 6
  Gwaith teg fel llwybr at amcanion busnes ........ 7
Pam mae gwaith teg yn hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch ........ 7
Dylanwadu ar gyfranogiad mewn gwaith teg ........ 10
Dull gweithredu'r panel ........ 12
Ystyriaethau a amlygwyd gan y panel ........ 12
Themâu ........ 14
Argymhellion ........ 15
  Creu gwaith teg ........ 15
  Cefnogi gwaith teg ........ 16
  Normaleiddio gwaith teg ........ 17
  Sgiliau a mynediad i waith ........ 18
  Monitro, gwerthuso a deallusrwydd ........ 19
Atodiad A. Adroddiadau perthnasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ........ 21
Atodiad B. Cylch Gorchwyl (v2a) ........ 22
  Cefndir ........ 22
  Diben y panel arbenigol ........ 22
  Y dull gweithredu ........ 23
  Llywodraethu ........ 23
  Atodiad Cylch Gorchwyl Aelodau'r Panel ........ 24
Atodiad C. Diffiniadau ........ 26
Atodiad D. Dull ........ 28
Cyfeirnodau ........ 30

# Cefndir

Mae gwaith ac amodau gwaith yn benderfynyddion hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch iechyd, ac mae gweithlu iach sy'n ymgysylltu'n iach yn cyfrannu at gynhyrchiant busnes a ffyniant cymdeithasol.

Wrth ymateb i bandemig Coronafeirws SARS-CoV-2 (COVID-19), lluniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfres o adroddiadau yn edrych ar newidiadau cyflogaeth yng Nghymru a'r hyn y gellid ei wneud i wella iechyd a thegwch iechyd (Atodiad A). Gan gydnabod bod dylanwadu ar gyfranogiad mewn gwaith sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch yn cynnwys llawer o gyfranwyr a safbwyntiau, fe wnaethom gynnull panel o arbenigwyr i lywio ein gwaith.

## Y Panel Arbenigol

Sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru banel arbenigol i archwilio'r dystiolaeth a chynhyrchu argymhellion ar gyfer asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch, ac i gynghori ar gyfathrebu'r argymhellion hyn (gweler y cylch gorchwyl Atodiad B).

I ddechrau, roedd y panel yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith ar bobl ifanc a phlant, gan ystyried dull Cenedlaethau'r Dyfodol a'r potensial ar gyfer effeithiau andwyol hirdymor sy'n gadael ei ôl ar bobl ifanc, gan gynnwys creithiau economaidd. Fodd bynnag, roedd y dull yn ymwneud â phob oedran.

> *Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.*
>
> *Nodweddion o fewn y diffiniad: Gwobrwyo teg; llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol.*
>
> *Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn hollbwysig i'r chwe nodwedd*
>
> Ffynhonnell: Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, 2019 https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru

## Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r panel, a ddefnyddiwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio'r cynhyrchion datblygu ar gyfer asiantaethau lleol a rhanbarthol.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fersiwn interim o'r adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflogadwyedd. Mae'r cynllun hwn, *Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau*,[1] wedi'i gyhoeddi erbyn hyn.

## Cyd-destun

### Pandemig COVID-19 a gwaith

Mae'r pandemig a'r mesurau rheoli cysylltiedig wedi amharu ar fywydau gwaith a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith teg i lawer yng Nghymru. Cafwyd effaith yn arbennig ar rai grwpiau, megis pobl ifanc, y rhai o gefndiroedd difreintiedig, menywod, yn enwedig mamau, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig[2].

Mae'r pandemig wedi gwaethygu annhegwch a oedd yn bodoli eisoes o ran cymryd rhan mewn gwaith teg, ac iechyd, ac wedi cyflwyno'i heriau newydd ei hun.

Er bod cynlluniau cymorth ariannol y llywodraeth wedi lliniaru llawer ar effaith y pandemig, cafodd COVID-19 effaith ddofn ar farchnad lafur ac economi Cymru. Yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020, cafwyd y gostyngiad chwarterol mwyaf yn y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw ym 1992,[3] ac roedd 16,000 o bobl wedi colli eu swyddi yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2020, y gyfradd uchaf o ddiswyddiadau ers 2009.[4]

Mae gweithio gartref wedi bod yn newid ychwanegol yn ystod y pandemig, er nad yw wedi bod ar gael i bawb. Mae'r profiad o weithio gartref yn wahanol iawn i wahanol grwpiau o'r boblogaeth.[5] Mae disgwyl i lefelau uwch o weithio gartref barhau hyd y gellir rhagweld, gyda Llywodraeth Cymru yn anelu at weld 30% o'r gweithlu'n gweithio o bell yn rheolaidd.[6]

Fodd bynnag, nid yw'r rhagfynegiadau cynnar o ran diweithdra cael eu gwireddu. Roedd diweithdra ym mis Awst 2021 yn 4.0% yng Nghymru,[7] a gwelwyd adferiad cryf ar draws y DU yn y farchnad lafur, gyda thros filiwn o swyddi gwag wedi'u cofnodi am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2021, gan godi i 1.29 miliwn ym mis Ebrill 2022.[8] Fodd bynnag, mae hyn yn gysylltiedig â'r crebachu mwyaf yn y farchnad lafur ers dechrau'r nawdegau, ac mae dadansoddiad yn awgrymu bod hyn wedi'i lywio gan y ffaith bod mwy o bobl yn economaidd anweithgar a llai o weithwyr o dramor.[9] Mae'r cynnydd mwy diweddar mewn diweithdra yn parhau i gael ei ysgogi gan lai o bobl hŷn mewn gwaith a mwy o bobl yn ddi-waith oherwydd salwch hirdymor.[10]

## Her driphlyg

Yng Nghymru, yn ogystal â heriau yn sgil effeithiau COVID-19, rydym hefyd yn wynebu heriau sy'n ymwneud â Brexit, gan gynnwys effeithiau ar sectorau a chadwyni cyflenwi penodol, ac addasu i newid yn yr hinsawdd[11]. Mae'r economi a chyflogaeth yn benderfynydd hanfodol o ran iechyd mewn perthynas â'r tair her a'u heffaith ar iechyd drwy waith teg. Mae pob un o'r tair her hyn yn cyfrannu at y dulliau y mae angen eu rhoi ar waith mewn perthynas â gwaith teg yn y dyfodol.

## Cyfnod o newid

Yn ogystal â'r her driphlyg hon, mae natur y gwaith yn parhau i newid wrth i ni weithio tuag at adferiad gwyrdd ac edrych tuag at ddyfodol gwaith gydag mwy o awtomeiddio a photensial ar gyfer economi â lefel uwch o sgiliau.[12]

Mae llawer o fentrau'n cael eu cynnal mewn perthynas â gwaith teg, yn enwedig ers cyhoeddi argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg yn 2019. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Drafft ac ymgynghori arno, datblygu dangosyddion gwaith teg (sydd eto i'w cyhoeddi) ac ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, gan gynnwys y warant i bobl ifanc.

## Datblygu economi llesiant

Mae Cymru'n aelod o Bartneriaeth Llywodraethu'r Economi Llesiant.[13] Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn datblygu dull economi llesiant drwy brosiect ar y cyd â Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Swyddfa Fenis, a'r Ffindir, tuag at sicrhau gwell iechyd, llesiant a thegwch.[14]

Gellir diffinio'r "Economi Llesiant" fel economi sy'n:

1. ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ar gyfer symudedd cymdeithasol tuag i fyny a gwella eu bywydau o ran y dimensiynau sydd bwysicaf iddynt;
2. sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn trosi'n ganlyniadau llesiant ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth, gan gynnwys y rhai sydd ar waelod y dosbarthiad;
3. lleihau anghydraddoldebau; a
4. meithrin cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol

Mae cyfranogi mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch yn mabwysiadu dull economi llesiant.

### Gwaith teg fel llwybr at amcanion busnes

Mae gan bob busnes ran i’w chwarae mewn dull gwaith teg.

Mae tystiolaeth yn cysylltu gweithlu mwy amrywiol a medrus â datblygu syniadau a dealltwriaeth newydd, mwy o ymgysylltu o ran gweithwyr er mwyn caniatáu i'r syniadau hynny gael eu defnyddio i gynyddu creadigrwydd ac arloesedd ac amgylchedd diogel i helpu gweithwyr i fynd yr ail filltir - sydd i gyd yn sail i berfformiad, arloesedd a chynhyrchiant uwch o ran gweithwyr.[15,16]

Mae sylfaen dystiolaeth gynyddol sy'n dangos y pwysigrwydd rhwng natur profiad pobl yn y gwaith a chynhyrchiant.[17]

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi nodi nad yw'r berthynas rhwng yr amgylchedd gwaith, llesiant a thegwch yn cael ei chydnabod na'i defnyddio'n ddigonol:

> *“There is a great deal of evidence to show clear associations between job quality and the health of workers, their ability to successfully combine work and life while fully mobilising their skills and abilities to build a career, and their productivity.*
>
> *Investments in quality working environments can be welfare enhancing and economically efficient. Policies and practices reflect these findings insufficiently, an apparent paradox that finds its roots in various market failures.*
>
> *There is scope for public intervention to raise awareness, to ensure better coordination of key stakeholders (employers, workers’ representatives and various public entities) and to put in place the right financial incentives for firms to invest in better working conditions.”*[18]

## Pam mae gwaith teg yn hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r nodau llesiant ar gyfer Cymru. Mae cymryd rhan mewn gwaith teg yn dwyn ynghyd y nodau Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy’n fwy cyfartal, Cymru gydnerth a Chymru o gymunedau cydlynus; gall gefnogi’r nod o sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu; a, thrwy gadwyni cyflenwi a natur y gwaith, helpu i greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Mae menter yr Adroddiad Statws Tegwch Iechyd[19] yn nodi pum amod hanfodol ar gyfer tegwch iechyd. Mae cyflogaeth ac amodau gwaith yn un o'r rhain; yn gysylltiedig â 7% o'r anghydraddoldeb mewn iechyd hunangofnodedig a welir ar lefel Ewropeaidd, oherwydd yr amodau hyn. Mae'r mesur hwn yn seiliedig ar ddata ar lefel gwlad ar gyfer y rhai nad ydynt mewn gwaith ac oriau gormodol, ac nid yw'n cyfrif am effaith incwm na nodweddion eraill gwaith teg.




Ffigur 1 Pum amod hanfodol ar gyfer tegwch iechyd y fenter adroddiad statws tegwch iechyd (HESRi)

Mae cysylltiad cryf rhwng gwaith teg a llawer o benderfynyddion allweddol eraill iechyd, gan gynnwys arian ac adnoddau, tai a'n hamgylchedd. I blant, mae incwm a gwaith eu rhieni yn ffactor allweddol o ran yr amser a gaiff ei dreulio mewn tlodi plant a'r gallu i adael tlodi[20].

Mae cofnod da o agweddau ar waith sy'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd a llesiant cadarnhaol. Mae diweithdra'n gysylltiedig â marwolaethau uwch, iechyd cyffredinol gwaeth (salwch hirdymor cyfyngol), iechyd meddwl gwaeth (trallod seicolegol, mân afiachedd seicolegol/seiciatrig), ac ymgynghori meddygol uwch (defnyddio meddyginiaeth a chyfraddau derbyn i'r ysbyty).[21]

Cafodd natur cyflogaeth (“gwaith da”) sy’n cefnogi iechyd ei ddisgrifio yn *Fair Society, Healthy Lives* fel a ganlyn:

- Rhydd o nodweddion craidd ansicrwydd, megis diffyg sefydlogrwydd a risg uchel o golli swyddi, diffyg mesurau diogelwch (amlygiad i sylweddau gwenwynig, risgiau uwch o ddamweiniau, a diffyg safonau sylfaenol o ran diogelu cyflogaeth).
- Galluogi'r person sy'n gweithio i gael rhywfaint o reolaeth drwy gyfrannu at wneud penderfyniadau ar faterion fel lle ac amseriad y gwaith a'r tasgau i'w cyflawni.
- Gosod gofynion priodol o uchel ar y person sy'n gweithio, o ran maint ac ansawdd, heb lethu eu hadnoddau a'u galluoedd a heb wneud niwed i'w hiechyd corfforol a meddyliol.
- Darparu cyflogaeth deg o ran enillion sy'n adlewyrchu cynhyrchiant ac o ran ymrwymiad cyflogwyr i warantu sicrwydd swyddi.
- Cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau, dysgu a rhagolygon i gael dyrchafiad o fewn persbectif cwrs bywyd, cynnal gallu o ran iechyd a gwaith ac ysgogi twf yng ngalluoedd yr unigolyn.
- Atal ynysu cymdeithasol ac unrhyw fath o wahaniaethu a thrais.
- Galluogi gweithwyr i rannu gwybodaeth berthnasol o fewn y sefydliad, cymryd rhan mewn penderfyniadau sefydliadol a bargeinio ar y cyd a gwarantu cyfiawnder gweithdrefnol mewn achos o wrthdaro.
- Anelu at gysoni gwaith a gofynion ychwanegol gwaith/teulu mewn ffyrdd sy'n lleihau baich cronnol llawer o rolau cymdeithasol.
- Ymdrechu i ailintegreiddio pobl sâl ac anabl i gyflogaeth lawn lle bynnag y bo modd.
- Cyfrannu at lesiant gweithwyr drwy ddiwallu anghenion seicolegol sylfaenol hunaneffeithiolrwydd, hunan-barch, ymdeimlad o berthyn ac chyfraniad ystyrlon.

[https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review/fair-society-healthy-lives-full-report-pdf.pdf.](https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review/fair-society-healthy-lives-full-report-pdf.pdf)


## Dylanwadu ar gyfranogiad mewn gwaith teg

Er nad yw rhai agweddau ar waith teg wedi'u datganoli, gan gynnwys deddfwriaeth cyflogaeth, mae eraill y gellir dylanwadu arnynt yng Nghymru.

Mae

**30%** o'r bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus (blwyddyn a ddaeth i ben Medi 2021)[22]

Mae gan asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol rôl hanfodol i'w chwarae o ran sbarduno cyfranogiad mewn gwaith da a theg. Mae hyn yn cynnwys drwy ddylanwadu ar argaeledd gwaith teg mewn ardal a chreu lleoedd, cefnogi mynediad at y gwaith hwnnw, annog a chymell arferion gwaith teg, gosod esiampl fel cyflogwyr da a sefydliadau angori a thrwy weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.




Ffigur 2: Cylchoedd dylanwad y sector cyhoeddus mewn perthynas â chyflogwyr gwaith teg

Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Bargeinion Dinesig a Thwf a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol oll rôl bwysig o ran sicrhau Cymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal ac iachach.

Mae rôl awdurdodau lleol yn esblygu wrth i'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd gael eu disodli gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Disgwylir i bartneriaethau rhanbarthol rhwng awdurdodau esblygu

gyda datblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gyfrifol am lesiant economaidd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.


Yng ngoleuni hyn, ni fu erioed gwell amser i ystyried y rôl y gall asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol ei chwarae o ran cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch.

## Dull gweithredu’r panel

Cynullwyd panel arbenigol a oedd yn cynnwys ystod eang o arbenigedd gan gynnwys y byd academaidd, busnes, y sector cyhoeddus a sectorau eraill yn ogystal â phrofiadau byw.

Cafodd y panel hwn dystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr pwnc, canfu dystiolaeth ychwanegol, a daeth ag arbenigedd yr aelodau ei hun i lunio themâu, cyfleoedd ac argymhellion drafft (Dull, Atodiad D).

Roedd yr argymhellion hyn yn sail i adroddiad interim i Lywodraeth Cymru, ac fe'u defnyddiwyd hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu deunydd ar gyfer asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol.




## Ystyriaethau a amlygwyd gan y panel

Tynnodd aelodau'r panel sylw at nifer o feysydd allweddol a ystyriwyd wrth ddatblygu'r argymhellion drafft:

- Mabwysiadodd y panel ddiffiniad Gwaith Teg Cymru o waith teg[23]. Mae'r diffiniad hwn yn ymgorffori agweddau hanfodol ar waith sy'n cefnogi iechyd. Mae defnyddio'r term yn caniatáu ar gyfer negeseuon cyson yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer cyflogwyr.
- Mae monitro, gwerthuso ac arddangos effaith yn agwedd hanfodol ar ymdrechion i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg.
- Mae cyfranogi mewn gwaith teg yn golygu ymateb system gyfan, o addysg a hyfforddiant, cefnogi pwyntiau pontio allweddol, hyd at ddatblygu economaidd rhanbarthol ac ymgysylltu a gweithredu gan y sector preifat.
- Ceir corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod ansawdd swyddi neu waith teg yn gysylltiedig â mwy o gynhyrchiant a manteision busnes ehangach.[24]
- Mae cyflogwyr ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd o ran sicrhau gwaith teg a thegwch o ran cyfranogiad mewn gwaith teg; mae angen i offer a fframweithiau gydnabod y sbectrwm ac annog gwelliant parhaus.
- Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn gyflogwyr gwaith teg enghreifftiol.


- Mae llawer o'r heriau o ran sicrhau gwaith teg i’w cael mewn sectorau nad ydynt yn dibynnu ar arian cyhoeddus.
- Drwy weithredu fel esiamplau o waith teg, gall cyrff cyhoeddus fodelu a helpu i normaleiddio arferion gwaith teg; fodd bynnag, mae perygl y gallai anghydraddoldebau o ran cyfranogi mewn gwaith teg ehangu rhwng y sector cyhoeddus a rhai sectorau eraill; mae monitro parhaus yn parhau i fod yn hanfodol.
- Datblygwyd gwaith sylweddol mewn perthynas â gwaith teg ers sefydlu'r Comisiwn Gwaith Teg, gan gynnwys datblygu’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Drafft, ac ymgynghori arno, gan ddatblygu dangosyddion gwaith teg (aros i gael ei gyhoeddi).
- Mae angen i'r agenda Gwaith Teg symud ymlaen law yn llaw â dull datblygu cynaliadwy.
- Mae gan aelodau'r panel brofiad byw o waith teg a’i effaith, ac mae straeon wedi'u cofnodi o’r rhain hefyd ar gael
- Roedd y dystiolaeth mewn perthynas â'r farchnad lafur weithgar a chanlyniadau iechyd a thegwch yn arwyddocaol o ran cysondeb a chyfeiriad yr effaith gadarnhaol; gan gydnabod bod ansawdd y dystiolaeth yn gymedrol.
- Roedd tystiolaeth mewn perthynas â pholisïau cymorth i deuluoedd ac iechyd o ansawdd is ar y cyfan ac nid oedd yn ddigonol i ddarparu sail resymegol ar gyfer argymhellion clir.
- O ran y cwestiwn "A yw unrhyw waith yn well na dim gwaith?" nododd y panel, o'r dystiolaeth bresennol, fod diffyg arwydd clir bod gwaith o ansawdd isel yn well na diweithdra.

## Themâu

Amlinellir themâu a nodwyd gan y panel yn y cyfarfod cychwynnol yn Ffigur 3.

**Economi/rhanbarth gwaith teg**

- Anghyfartaledd Rhanbarthol
- Datblygu rhanbarthol
- Newidiadau ESF – cyfle
- Cynnydd mewn anweithgarwch economaidd
- Dyfodol gwaith




**Croestoriadau**

- Cysylltiad awdurdodau lleol â chymunedau
- Caffael lleol
- Cyfranogiad gwahaniaethol yn y farchnad lafur
- Gweithio o bell ac anghydraddoldebau
- Yr angen am ddulliau symlach a mwy cydgysylltiedig gyda busnesau

**Dylanwadu ar Gyflogwyr**

- Hyfforddiant arweinyddiaeth rh reolwyr
- Cynhyrchiant a gwaith teg
- Deinameg gweithiwr ac undebau
- Gweithwyr â nodweddion gwarchodedig
- Hyblygrwydd, sicrwydd, dilyniant
- Gofalwyr

**Mynediad teg**

- Cefnogi pontio i bobl ifanc
- Sgiliau ac ailhyfforddi
- Setiau sgiliau cyfatebol
- Cyfleoedd i ailhyfforddi
- Angen profiad i gael profiad

**Y sector cyhoeddus fel cyflogwyr/sefydliadau angori**

Ffigur 3: Themâu a nodwyd gan y panel

Defnyddiwyd y themâu hyn i lywio'r drafodaeth am gyfleoedd ac i gynhyrchu argymhellion drafft.

# Argymhellion

## Creu gwaith teg

Mae’r panel yn argymell:

| | | Pwy ddylai weithredu? |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgorfforí cyfranogi mewn gwaith teg mewn polisïau, strategaethau a chynlluniau perthnasol er mwyn cynyddu tegwch cyfranogi mewn gwaith teg yn sylweddol.** | Asiantaethau a phartneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol |
| | Pam?<br><br>Ychydig iawn o gynlluniau llesiant neu fframweithiau datblygu economaidd rhanbarthol sy'n cyfeirio'n benodol at waith teg neu ei ddimensiynau. Mae gan gynlluniau llesiant a fframweithiau economaidd rhanbarthol y potensial i bennu'r bwriad ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg, wedi'i ategu gan gynlluniau gweithredu a monitro i ddangos effaith. Mae gan gynlluniau a strategaethau ehangach fel cynlluniau trafnidiaeth, cynhwysiant digidol a chynlluniau datblygu lleol rôl hanfodol hefyd o ran cefnogi cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer gwahanol grwpiau o’r boblogaeth | |
| 2 | **Sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n gwella iechyd, llesiant a thegwch drwy gyfranogi mewn gwaith teg drwy:**<br>• **greu swyddi ar gyfer gwaith teg,**<br>• **denu cyflogwyr gwaith teg a**<br>• **chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol** | Asiantaethau a phartneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol |
| | Pam?<br><br>Mae gweithio tuag at economi llesiant yn golygu sicrhau bod cyfleoedd economaidd yn trosi'n ganlyniadau llesiant ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth, gan gynnwys y rhai ar waelod y dosbarthiad. Mae'r cysyniad o 'rywbeth yn gyfnewid am rywbeth arall' pan ddefnyddir arian cyhoeddus, fel y dangosir gan y Contract Economaidd, wedi'i hen sefydlu a dylai fod wrth wraidd gwaith cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ffyrdd eraill o gefnogi'r dull hwn yw’r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi; Cytundebau adran 106; | |

| | | |
|---|---|---|
| | a'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol. Mae monitro ac arddangos effaith y dulliau hyn yn hanfodol. | |

## Cefnogi gwaith teg

| | Mae'r panel yn argymell: | Pwy ddylai weithredu? |
|---|---|---|
| 3 | **Nodi a hyrwyddo offer, adnoddau a chynlluniau achredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflogwyr i gefnogi'r broses o gymhwyso arferion gwaith teg er mwyn gwella perfformiad busnes a chefnogi iechyd, llesiant a thegwch.** | Asiantaeth genedlaethol, e.e. Busnes Cymru yn gweithio gyda Cymru Iach ar Waith |
| | **Defnyddio offer, adnoddau a chynlluniau achredu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n gwella iechyd, llesiant a thegwch [argymhelliad 2] ac wrth ymgysylltu â chyflogwyr [argymhelliad 4].** | Asiantaethau a phartneriaethau rhanbarthol a lleol |
| | Pam?<br><br>Mae offer, adnoddau a "marciau barcud" niferus yn bodoli sy'n ymwneud â gwaith teg. Gallai Busnes Cymru arwain y gwaith o nodi ac asesu offer, gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a Cymru Iach ar Waith.<br><br>Byddai fframwaith sy'n cydnabod y gwahanol gamau o fod yn gyflogwr gwaith teg, maint y busnes a'r sector yn cefnogi defnydd priodol o'r offer hyn. Mae hyfforddiant ac adnoddau arwain a rheoli yn elfen bwysig o gefnogi busnesau i fod yn gyflogwyr gwaith teg. Gallai hyn fod yn rhan o ymdrech ehangach i symleiddio'r cynnig presennol i gyflogwyr, hyfforddwyr, ceiswyr gwaith a'r cyhoedd. | |

## Normaleiddio gwaith teg

Mae'r panel yn argymell:

| | | Pwy ddylai weithredu? |
|---|---|---|
| 4 | **Comisiynu gwaith i ddangos gwerth, a normaleiddio, gwaith teg ar gyfer iechyd a llesiant i gyflogwyr a'r cyhoedd.** | Llywodraeth Cymru |
| | **Dod yn esiamplau o arferion gwaith teg** | Asiantaethau a phartneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol |
| | **Ymgysylltu â chyflogwyr yn eu hardaloedd i ddatblygu, rhannu ac arddangos gwaith teg i wella cynhyrchiant busnes ac iechyd a llesiant gweithwyr.** | Asiantaethau a phartneriaethau rhanbarthol a lleol |
| | Pam?<br><br>Argymhellodd y Comisiwn Gwaith Teg strategaeth gyfathrebu a marchnata ar gyfer gwaith teg (argymhellion 28 a 29), ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i'r perwyl hwn. Mae'r panel yn cymeradwyo'r ymdrechion hyn ac yn argymell dull gweithredu ac effaith gwaith teg i'r cyhoedd a busnesau.<br><br>Dylai'r gwaith hwn ddefnyddio tystiolaeth i nodi'r effeithiau a'r manteision busnes sy'n gysylltiedig ag arferion gwaith teg, ac annog busnesau i rannu arferion da. Mae rhai o'r enghreifftiau hyn eisoes yn bodoli, gyda chyfryngau ategol, megis gan Busnes yn y Gymuned: https://www.bitc.org.uk/case-study/what-if-your-job-was-good-for-you-case-study-anthology/. | |

## Sgiliau a mynediad i waith

Mae'r panel yn argymell:

| | | Pwy ddylai weithredu? |
|---|---|---|
| 5 | **Cymryd camau wedi'u targedu gyda chyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant yn yr ardal i sicrhau bod pobl sy'n profi anghydraddoldebau, gan gynnwys y rhai â chyflyrau iechyd meddwl ac anableddau corfforol, yn cael cyfleoedd teg i gael cyflogaeth mewn gwaith teg.** | Asiantaethau lleol a rhanbarthol |
| | Pam?<br><br>Mae rhai grwpiau'n llai tebygol o gael gafael ar waith teg, er enghraifft mae pobl iau, gweithwyr mudol, a menywod, yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr. Awgryma tystiolaeth o ansawdd cymedrol fod polisïau marchnad lafur weithgar gan gynnwys cymorth chwilio am swyddi, creu swyddi, a rhaglenni addysg a hyfforddiant yn arwain at fanteision iechyd. Awgryma'r llenyddiaeth hon y dylid eu teilwra i anghenion unigol. | |
| 6 | **Gan weithio gyda chyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant, cynyddu gallu'r gweithlu lleol i addasu i gyfleoedd gwaith sy'n cefnogi iechyd a llesiant, drwy uwchsgilio, mewnsgilio ac ailsgilio. Dylai ymdrechion ganolbwyntio ar grwpiau o'r boblogaeth yr aseswyd eu bod yn fwyaf difreintiedig a chefnogi datblygiad y Gymraeg.** | Asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol |
| 7 | **Datblygu dull gwaith teg o ymdrin â chyflogadwyedd drwy raglenni Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru. Dylai hyn ymgorffori marchnata cymdeithasol, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl ifanc a grwpiau penodol eraill o wasanaethau sy'n cefnogi mynediad at waith teg a chynyddu'r niferoedd hynny.** | Llywodraeth Cymru |
| | Ym mhopeth y mae Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru yn ei wneud, dylai dull gwaith teg fod yn ganolog. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol o entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth fel llwybrau i | |

| | | |
|---|---|---|
| | waith teg. Dylai cyngor gyrfaoedd gynorthwyo pobl i gael gafael ar waith teg. Dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod darpariaeth addysgol yn gallu cefnogi mynediad at waith teg.<br><br>Wrth weithio gyda phobl ifanc yn ystod y pandemig, dangoswyd diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael[2]. Er mwyn cyrraedd y grŵp hwn, a grwpiau penodol eraill, mae angen dull marchnata cymdeithasol cylchrannog sy'n canolbwyntio ar nodau ymddygiadol clir. | |
| 8 | **Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru ac asiantaethau eraill i gau a lleihau effaith y bwlch anghydraddoldebau digidol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer gweithio hybrid.** | Asiantaethau lleol a rhanbarthol |
| | Gall anghydraddoldeb digidol gynnwys llythrennedd digidol, offer, cael gafael ar rwydwaith a digon o le i weithio gartref. Canfuwyd y potensial y gallai cynhwysiant digidol gwahaniaethol o ran ehangu anghydraddoldebau iechyd trwy fynediad at gyfleoedd cyflogaeth cyn y pandemig[i]. Mae COVID-19 a'r ymateb wedi cynyddu'r heriau hyn. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhai sydd â swyddi o ansawdd gwell, fel y'u mesurir gan lefel y sgiliau y maent yn eu harfer a'r cyflog a gânt, yn manteisio'n anghymesur ar weithio gartref;[ii] serch hynny mae allgáu digidol yn gysylltiedig ag incwm isel ac anfanteision eraill**Error! Bookmark not defined.** | |

## Monitro, gwerthuso a deallusrwydd

Mae’r panel yn argymell:

| | | Pwy ddylai weithredu? |
|---|---|---|

[i] Honeyman D et al. (2020) Technoleg ddigidol ac anghydraddoldebau iechyd: adolygiad cwmpasu, Iechyd Cyhoeddus Cymru https://phw.nhs.wales/publications/publications1/technoleg-ddigidol-ac-anghydraddoldebau-iechyd-adolygiad-cwmpasu/

[ii] Felstead A (2021) Amlinellu gwahanol elfennau'r 'Arbrawf Gwaith Cartref Mawr' a'i oblygiadau i Gymru, Adroddiad a Gomisiynwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru, https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cyhoeddiad-newydd-amlinellu-gwahanol-elfennau-r-arbrawf-gweithio-gartref-mawr-a-i-oblygiadau-i-gymru/

| | | |
|---|---|---|
| 9 | **Gwerthuso polisïau cyflogaeth a gwaith teg o ran eu heffaith ar iechyd, llesiant a thegwch. Gallai Cymru ddod yn ganolfan ymchwil ar waith teg a llesiant.** | Gweithio Llywodraeth Cymru |
| | Pam?<br><br>Mae tystiolaeth ar effeithiau ymyriadau penodol yn y farchnad lafur ar iechyd a thegwch ar gael o ffynonellau tystiolaeth o ansawdd cymedrol, ond yn aml nid yw'n darparu gwybodaeth am is-grwpiau penodol.<br><br>O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd, mae Cymru wedi'i sefydlu fel 'safle arloesi polisi byw' drwy ddatblygu offer, mecanweithiau ac atebion digidol arloesol i fodelu canlyniadau ac effaith ac i fonitro cynnydd, yn ogystal â darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth, dysgu a dealltwriaeth ar draws y Rhanbarth a thu hwnt.<br><br>Gall Cymru fod yn amgylchedd delfrydol, gyda chyfoeth o ddata cysylltiedig, i ddeall effeithiau ein hymyriadau i rannu'r dysgu hwn yn ehangach. | |
| 10 | **Monitro a gwerthuso effaith ymdrechion i gynyddu cyfranogi mewn gwaith teg a defnyddio data a deallusrwydd i gyfeirio eu hymdrechion.** | Asiantaethau lleol a rhanbarthol |
| | Disgwylir i ddangosyddion gwaith teg fod ar gael yn fuan i helpu i olrhain cynnydd ledled Cymru. Os yw'r rhain ar gael ar lefel leol, dylai asiantaethau lleol a rhanbarthol eu defnyddio i fonitro cynnydd. Yn ogystal, mae'n hanfodol bod asiantaethau, ar sail ymdrechion Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yn gweithio i ddeall heriau eu cymunedau wrth gyfranogi mewn gwaith teg, ymgysylltu â hwy a'u cynnwys yn eu gwaith a monitro a gwerthuso ymdrechion i wella iechyd, llesiant a thegwch drwy wella mynediad at waith teg. | |

## Atodiad A. Adroddiadau perthnasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau a all hysbysu asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru:

- Newidiadau i Gyflogaeth yng Nghymru yn ymwneud â COVID (2021)
- Arolwg cenedlaethol: pwy sydd fwyaf agored i newidiadau cyflogaeth yn ystod pandemig COVID-19? Canfyddiadau allweddol o arolwg cenedlaethol (2021)
- Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith Gweithio Gartref ac Ystwyth ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru (2021)
- Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru – WHESRi - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (2021)
- Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd o ran iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru (2021)
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o'r 'Polisi Aros Gartref ac Ymbellhau Cymdeithasol' yng Nghymru mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. (2020)
- Anghydraddoldeb yng Nghymru'r dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd, a newid demograffig.
- Beth allai cytundebau masnach ar ôl Brexit ei olygu i iechyd y cyhoedd yng Nghymru? 2021
- Effaith Cyllid Rhanbarthol ar Iechyd a Llesiant yng Nghymru 2022
- Mwyafu cyfleoedd iechyd a lles mewn cynllunio gofodol wrth ailsefydlu yn sgil y pandemig COVID-19 (2022)
- Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb y Gweithlu (2022)

# Atodiad B. Cylch Gorchwyl (v2a)

## Cefndir

Mae'r pandemig a'r mesurau rheoli wedi amharu ar fywydau gwaith a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith teg i lawer yng Nghymru. Cafodd hyn effaith ar rai grwpiau arbennig, megis pobl ifanc, pobl o gefndiroedd difreintiedig, menywod, yn enwedig mamau, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud gwaith i ddeall yr effeithiau hyn a beth y gellir ei wneud yn eu cylch. Mae hyn yn cynnwys y gyfres Newidiadau i Gyflogaeth yng Nghymru yn ymwneud â COVID ac arolwg cenedlaethol ar bwy sydd fwyaf agored i newidiadau cyflogaeth yn ystod pandemig COVID-19? Mae'r gwaith hwn wedi edrych ar:

- Yr hyn a wyddom am effeithiau'r presennol a'r dyfodol, gan goladu data meintiol
- Mewnwelediadau ar gyfer polisi – pobl ifanc, cyflogaeth ac iechyd, astudiaeth ansoddol o bobl ifanc, y trydydd sector a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dylanwadwyr (Beaufort Research)
- Ymyriadau addawol i wella iechyd a thegwch iechyd, mapio tystiolaeth ryngwladol (Alma Economics)

Mae gan asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae o ran sbarduno cyfranogiad mewn gwaith teg. Mae hyn yn cynnwys gwella argaeledd gwaith teg mewn ardal a chreu lleoedd, cefnogi mynediad i'r gwaith hwnnw, annog a chymell arferion gwaith teg, bod yn enghreifftiau fel cyflogwyr 'da' a sefydliadau angori a thrwy weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

## Diben y panel arbenigol

Diben y panel arbenigol yw llunio argymhellion ar gyfer asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch, ac i gynghori ar gyfathrebu'r argymhellion hyn.

Bydd ffocws penodol ar yr effaith ar bobl ifanc a phlant, yng ngoleuni dull Cenedlaethau'r Dyfodol a'r potensial am effeithiau andwyol hirdymor ymhlith pobl ifanc

## Y dull gweithredu

Bydd y panel yn:

- Ystyried a derbyn tystiolaeth ar effaith COVID-19 mewn perthynas â chyfranogi mewn gwaith teg ac â’r hyn sy'n gweithio i wella iechyd, llesiant a thegwch
- Cynghori ar gyfleoedd i ddylanwadu ar iechyd, llesiant a thegwch drwy waith teg, gan adeiladu ar gryfderau presennol
- Cynorthwyo i lunio argymhellion ar gyfer gweithredu
- Cynghori ar y deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddylanwadu ar gamau gweithredu mewn perthynas â'r argymhellion hyn
- Cynghori ar ddulliau gwerthuso
- Cefnogi'r gwaith i gael yr effaith fwyaf posibl

Rhagwelir y caiff deunydd ei ddatblygu i ddylanwadu ar **gynlluniau llesiant lleol** a **cynlluniau datblygu rhanbarthol** a'u gweithredu; er hynny, bydd y dull yn cael ei lywio gan farn y panel. Bydd canfyddiadau'r panel hefyd yn cyfrannu at ddiweddariad **Gynllun Cyflogadwyedd** wedi’i ddiweddaru.

Caiff y dull hwn ei lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gadw mewn cof y nodau a'r ffyrdd o weithio.

Anogir aelodau'r panel i rannu gwybodaeth am y panel a'i ddull gweithredu gyda'r rhwydweithiau priodol i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith a chyfrannu unrhyw adborth. Defnyddir offer cydweithredol ar-lein gyda'r panel, ni ddylid ychwanegu unrhyw wybodaeth gyfrinachol at yr offer hyn.

## Llywodraethu

Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn gyfrifol am gynnull y panel a darparu cymorth ysgrifenyddol. Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn gyfrifol am unrhyw gynhyrchion terfynol sy'n deillio o drafodaethau'r panel. Bydd canfyddiadau'r panel hefyd yn cael eu hadrodd i *Grŵp Cydgysylltu Creu Cymru Iachach* a *Bwrdd Cyflogaeth* Llywodraeth Cymru.

## Atodiad Cylch Gorchwyl Aelodau'r Panel

Mae'r panel yn dod ag ystod eang o arbenigedd, gan gynnwys y byd academaidd, busnes, sectorau cyhoeddus a sectorau eraill a phrofiadau byw. Nodir nad yw aelodau panel Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gymeradwyo argymhellion, fodd bynnag, gallant rannu eu gwybodaeth am bolisi cyfredol a pholisi sy'n datblygu i hysbysu'r panel.

Bydd nifer o arsylwyr yn ymuno â chyfarfodydd y panel a bydd nifer o gydweithwyr o Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymuno i ddarparu cymorth ar gyfer ymarferion ar ffurf gweithdai.

| Enw | Rôl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Yr Athro Ceri Phillips (Cadeirydd) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br><br>Athro Emeritws Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe | Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Andrea Parr (Cymorth ysgrifenyddol) | Cydgysylltydd Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Aggie Cesar-Homden | Rheolwr Partneriaeth | Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru |
| Yr Athro Alan Felstead | Athro Ymchwil, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas | Prifysgol Caerdydd; WISERD |
| Yr Athro Ann John | Athro Iechyd y Cyhoedd a Seiciatreg | Prifysgol Caerdydd |
| Christian Heathcote-Elliott | Prif Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Dr Ciarán Humphreys | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| David Hagendyk | Cyfarwyddwr Cymru | Y Sefydliad Dysgu a Gwaith |
| Deb Ryan-Newton | Cydgysylltydd BGC | BGC Merthyr Tudful |
| Donna Dickenson | Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid | Awdurdod lleol Wrecsam |
| Ethan Thomas | Cynorthwy-ydd Gweinyddol y Tîm Cydraddoldeb (drwy Gynllun Kickstart) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Glen Bowen | Cyfarwyddwr Menter | Cymdeithas Cydweithredol Cymru |
| Helen Cunningham/ Steffan Evans | Swyddog Polisi ac Ymchwil/ Pennaeth Polisi (tlodi) | Sefydliad Bevan |
| Jonathan Bonville-Ginn | Dadansoddwr | Llywodraeth Cymru |
| Liz Green | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd/ Cyfarwyddwr | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaglen Asesu'r Effaith ar Iechyd | |
| Louise Brown | Pennaeth Cynllun Cyflogadwyedd | Llywodraeth Cymru |
| Mary-Ann McKibben / Rachel Lewis | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Lleoliadau Iach/ Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd | Cymru Iach ar Waith, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Philip Daniels | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg |
| Dr Rachel Bowen | Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus | Colegau Cymru |
| Rachel Gidman | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Rhianydd Williams | Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi | TUC |
| Sian Lloyd Roberts | Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol | Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru |
| Stephen Layne | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwaith Teg | Llywodraeth Cymru |
| Susan Husband | Cyfarwyddwr | Busnes yn y Gymuned |
| Tim Peppin | Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Arsylwyr** | | |
| Dr Amanda Shriwise | Ymgynghorydd | Swyddfa Fenis WHO |
| Tanja Buzeti | Swyddog Polisi | Swyddfa Fenis WHO |
| Nisreen Anna Mansour | Swyddog Polisi | TUC Cymru |

# Atodiad C. Diffiniadau

## Gwaith teg

Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Nodweddion o fewn y diffiniad: Gwobrwyo teg; llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn hollbwysig i'r chwe nodwedd.

Ffynhonnell: Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, 2019
https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru

## Canlyniadau iechyd a llesiant

Ystyrir iechyd a llesiant yn gyfannol a gall gwmpasu ystod o ganlyniadau gan gynnwys: iechyd corfforol, iechyd meddwl, anhwylder meddwl, llesiant seicolegol ac ansawdd bywyd.

## Tegwch

Tegwch yw absenoldeb gwahaniaethau y gellir eu hosgoi, annheg neu y gellir eu hadfer ymhlith grwpiau o bobl, p'un a yw'r grwpiau hynny wedi'u diffinio'n gymdeithasol, yn economaidd, yn ddemograffig neu'n ddaearyddol neu drwy haenau eraill.

Mae tegwch iechyd (neu degwch mewn iechyd) yn awgrymu y dylai pawb yn ddelfrydol gael cyfle teg i gyrraedd eu potensial iechyd llawn ac na ddylai unrhyw un fod dan anfantais rhag cyflawni'r potensial hwn.

Mae annhegwch iechyd yn anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi rhwng grwpiau o bobl, sy'n deillio o anghydraddoldebau o fewn a rhwng gwledydd/ cymdeithasau.

https://phwwhocc.co.uk/adnoddau/adroddiad-statws-tegwch-iechyd-cymru-whesri

## Polisïau marchnad lafur weithgar

Polisïau marchnad lafur weithgar yw ymyriadau sy'n cynorthwyo pobl i ddod o hyd i swyddi cynaliadwy, gan hyrwyddo'r broses o greu swyddi cynhyrchiol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gwella cymwysterau a chynhyrchiant pobl a gwarantu cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phobl sy'n chwilio am swyddi.

Fel arfer, darperir rhaglenni marchnad lafur weithgar i newydd-ddyfodiaid ifanc i'r farchnad lafur a phobl â sgiliau isel. Maent yn cynnwys rhaglenni ieuenctid; rhaglenni addysg a hyfforddiant; creu swyddi a chymorth chwilio am waith.

## Polisïau marchnad lafur weithgar

Amrywiaeth o bolisïau wedi'u targedu at bobl ddi-waith ac sy'n cynnwys budd-daliadau a throsglwyddiadau incwm

## Polisïau cymorth i deuluoedd

Mae polisïau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cynnwys gofal plant am ddim neu ofal plant fforddiadwy; lwfansau teulu; absenoldeb rhiant; 'O Fudd-dal i Waith'.

## Asiantaethau lleol a rhanbarthol

Mae asiantaethau lleol a rhanbarthol yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at gyrff y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am iechyd, llesiant neu economi'r boblogaeth ar lefel leol neu ranbarthol. Mewn llawer o achosion, bydd y cyfeiriad mwyaf perthnasol at awdurdodau lleol; fodd bynnag, maent hefyd yn berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys byrddau iechyd.

## Partneriaethau lleol a rhanbarthol

Mae partneriaethau lleol a rhanbarthol yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chyrff sy'n gyfrifol am Fargeinion Dinesig a Thwf, gyda chefnogaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

## Atodiad D. Dull

Dull gweithredu'r panel oedd:

- Ystyried a derbyn tystiolaeth ar effaith COVID-19 mewn perthynas â chyfranogi mewn gwaith teg da a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i wella iechyd, llesiant a thegwch
- Cynghori ar gyfleoedd i ddylanwadu ar iechyd, llesiant a thegwch drwy waith teg, gan adeiladu ar gryfderau presennol
- Cynorthwyo i lunio argymhellion ar gyfer gweithredu
- Cynghori ar y deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddylanwadu ar gamau gweithredu mewn perthynas â'r argymhellion hyn
- Cynghori ar ddulliau gwerthuso
- Cefnogi'r gwaith er mwyn cael effaith

Er mwyn cefnogi'r panel, cynhaliwyd adolygiadau o dystiolaeth yn ymwneud â strategaethau marchnad lafur weithgar a strategaethau cymorth i deuluoedd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant. Datblygwyd coladiadau o ymyriadau a gwerthusiadau cenedlaethol cyfredol hefyd.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn cynnwys:

**Cyfarfod 1 (29 Medi 2021):**

- C-19 a newidiadau mewn cyflogaeth: mewnwelediadau'n ymwneud â phobl ifanc (Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- "Beth mae cyflogwyr yn ei feddwl?" Cymru Iach ar Waith, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sefyllfa bresennol y farchnad lafur (Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth)

**Cyfarfod 2 (8 Hydref 2021):**

- Tystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer polisïau'r farchnad lafur weithgar a chymorth i deuluoedd ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch (Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- "A yw unrhyw swydd yn well na dim swydd?" adolygiad systematig (Gwasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Covid-19, Astudiaeth Cyflogaeth ac Iechyd (Ymchwil a Gwerthuso, Iechyd Cyhoeddus Cymru)

**Cyfarfod 4 (21 Rhagfyr 2021)**

- Mewnwelediadau ag arweinwyr awdurdodau lleol/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Astudiaethau achos

Cafwyd cyfraniadau ychwanegol a choladu tystiolaeth gan aelodau'r panel yn ystod a thu allan i gyfarfodydd drwy ddulliau cydweithredol ar-lein.

Cyfarfu'r panel hefyd: cyfarfod 3 (18 Hydref 2021) a chyfarfod 5 (15 Chwefror 2022).

# Cyfeirnodau


[1] Llywodraeth Cymru (2020) *Cymru gryfach, decach, wyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau* https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau.pdf
[2] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) *COVID-19 a Newidiadau Cyflogaeth yng Nghymru (cyfres).* COVID-19 a Newidiadau Cyflogaeth yng Nghymru
[3] StatsCymru (2021) *Crynodeb o'r farchnad lafur yn ôl mesur, oedran, gwlad yn y DU a chwarter (wedi'i addasu'n dymhorol)*. Crynodeb o'r farchnad lafur yn ôl mesur, oedran, gwlad y DU a chwarter (wedi'i addasu'n dymhorol) (llyw.cymru)
[4] Llywodraeth Cymru (2021) *Ystadegau Economaidd Allweddol, Ionawr 2021*. Ystadegau Economaidd Allweddol, Ionawr 2021 (llyw.cymru)
[5] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) *Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith gweithio gartref ac ystwyth ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru.* Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith gweithio gartref ac ystwyth ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru (phwwhocc.co.uk)
[6] Llywodraeth Cymru (2022) *Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru*. Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU
[7] Llywodraeth Cymru (2021) *Trosolwg o'r farchnad lafur, Hydref 2021.* Trosolwg o'r farchnad lafur: Hydref 2021 | LLYW.CYMRU
[8] Llywodraeth Cymru (2022) *Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Ebrill* 2022. Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Ebrill 2022 (llyw.cymru)
[9] Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2021) *Ystadegau'r Farchnad Lafur, Medi 2021.* Ystadegau'r Farchnad Lafur, Medi 2021| Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) (employment-studies.co.uk)
[10] Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2022) *Ystadegau'r Farchnad Lafur, Ebrill 2022*. Ystadegau'r Farchnad Lafur, Ebrill 2022 | Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) (employment-studies.co.uk)
[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) *Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd o ran iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru Pwyslais ar: Ddiogelwch Bwyd*. Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd o ran iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru Pwyslais ar: Ddiogelwch Bwyd - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (phwwhocc.co.uk)
[12] Bell M, Bristow D, Martin S (2017) *Dyfodol Gwaith yng Nghymru*. https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/The-Future-of-Work-in-Wales.pdf
[13] Cynghrair yr Economi Llesiant [fel ar 20 Hydref 2021] *Cymru'n ymuno â phartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant*. Wales joins Wellbeing Economy Governments partnership - Wellbeing Economy Alliance (weall.org)
[14] OECD (2019) *Yr Economi Llesiant Creu cyfleoedd ar gyfer llesiant a thwf economaidd pobl.* PAPUR GWAITH SDD Rhif 102. https://www.oecd-ilibrary.org/economics/the-economy-of-well-being_498e9bc7-en
[15] Rogers G a Richmond K (2016) *Fair work and productivity*. https://www.strath.ac.uk/media/departments/economics/fairse/fecvol40no3/Fair_work_and_productivity.pdf
[16] Arends I, Prinz C ac Abma F (2017) *Job quality, health and at-work productivity.* Papurau Gwaith Cymdeithasol, Cyflogaeth a Mudo OECD, Rhif 195. Job quality, health and at-work productivity | OECD Social, Employment and Migration Working Papers | OECD iLibrary (oecd-ilibrary.org)
[17] Warhurst, C, et al. (2021) *Does good work have a positive effect on productivity? Building the evidence base. A literature review prepared for the Carnegie UK Trust.*
[18] Saint-Martin A, Inanc H a Prinz C (2018) *Job Quality, Health and Productivity: An evidence-based framework for analysis.* OECD Social, Employment and Migration Working Papers No.221

[19] WHO (2019) *The European Health Equity Status Report Initiative*. http://www.euro.who.int/en/health-topics/health-determinants/social-determinants/health-equity-status-report-initiative
[20] Llywodraeth EM (2014) *An evidence review of the drivers of child poverty for families in poverty now and for poor children growing up to be poor adults*. 35357_Book.indb (publishing.service.gov.uk)
[21] Waddell G a Burton K (2006) ) *Is work good for your health and well-being?* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214326/hwwb-is-work-good-for-you.pdf
[22] Llywodraeth Cymru, StatsCymru (2022) *Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a statws.* Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a statws (llyw.cymru)
[23] Comisiwn Gwaith Teg (2019) *Gwaith Teg Cymru.* https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru
[24] RSA (2020) *Can good work solve the productivity puzzle? Collected essays.* https://www.thersa.org/reports/good-work-productivity-puzzle